**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | V A Holland | P Lloyd |
| M Bailey | C A Holley | M W Locke |
| M Baker | P R Hood-Williams | N L Matthews |
| S Bennett | B Hopkins | P M Matthews |
| P N Bentu | D H Hopkins | J D McGettrick |
| P M Black | L James | F D O'Brien |
| A M Day | O G James | A J O'Connor |
| P Downing | Y V Jardine | D Phillips |
| C R Doyle | A J Jeffery | C L Philpott |
| M Durke | D H Jenkins | J E Pritchard |
| C R Evans | J W Jones | S Pritchard |
| C M J Evans | L R Jones | K M Roberts |
| V M Evans | M H Jones | B J Rowlands |
| E W Fitzgerald | M Jones | R V Smith |
| R Fogarty | S Joy | A H Stevens |
| R Francis-Davies | S E Keeton | R C Stewart |
| N Furlong | E J King | L G Thomas |
| L S Gibbard | E T Kirchner | W G Thomas |
| A Anthony | H Lawson | M S Tribe |
| F M Gordon | A S Lewis | G D Walker |
| K M Griffiths | M B Lewis | L V Walton |
| H J Gwilliam | R D Lewis | T M White |
| T J Hennegan | W G Lewis | R A Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A Davis, J A Hale, S M Jones, P N May a/ac S J Rice

---

## 68. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 69. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2023.

## 70. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 71. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Cydymdeimladau

**i) Huw Mowbray - Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol**
Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Huw Mowbray. Huw oedd Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol y cyngor. Roedd Huw yn gyfaill ac yn gydweithiwr gwych i lawer ac roedd yn cael ei barchu'n fawr gan Gynghorwyr a Swyddogion am ei broffesiynoldeb a'i ymroddiad.

Am flynyddoedd lawer, helpodd Huw i lunio'r broses o adfywio Canol y Ddinas ac roedd yn cael ei barchu'n fawr gan ein Partneriaid a'n Datblygwyr. Gellir gweld effaith Huw ar y Ddinas heddiw yn y datblygiadau niferus sydd wedi helpu i drawsnewid Canol y Ddinas.

Dywedodd fod meddyliau a chydymdeimlad y cyngor gyda theulu, ffrindiau a chydweithwyr Huw.

**ii) Patrick Arran - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol**
Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Patrick Arran. Roedd Patrick yn gyn-bennaeth y gwasanaethau cyfreithiol. Dywedodd fod meddyliau a chydymdeimlad y cyngor gyda theulu, ffrindiau a chydweithwyr Patrick.

Safodd bawb fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**b) Adolygiad Dosbarth Etholiadol a Man Pleidleisio 2023**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod y Swyddog Canlyniadau'n cynnal Adolygiad Dosbarth Etholiadol a Man Pleidleisio 2023. Agorodd y Cyfnod Ymgynghori ar 8 Tachwedd 2023 ac mae'n cau ar 20 Rhagfyr 2023. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ar gael ar-lein yn https://swansea.gov.uk/article/25356/Review-of-Polling-Districts-and-Polling-PlacesStations-2023

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at etholiadau@abertawe.gov.uk neu drwy lenwi ffurflen ar-lein https://online1.snapsurveys.com/pollingdistrictreview

**c) Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel 2023**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol gynhaliwyd y Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel cyntaf yn ddiweddar yng Ngwesty'r Village, Abertawe. Nod y gwobrau yw dathlu gwaith prosiectau, partneriaethau a phobl sy'n mynd ati i wneud cymunedau'n fwy diogel ar draws Cymru. Mae'r Gwobrau'n arddangos y gwaith gwych sy'n cael ei wneud ar draws Cymru i atal a lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trais yn erbyn Menywod a Merched, a Chamfanteisio ac i wneud cymunedau'n fwy diogel o ran y meysydd hynny.

Dywedodd ei bod yn hapus iawn i gyhoeddi bod pedwar prosiect Cyngor Abertawe yn cael eu hanrhydeddu yn ystod y gwobrau:

- Cafodd brosiect *Flip the Streets* y Tîm Integreiddio Cymunedol gymeradwyaeth uchel yn y categori Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Chydlyniant.
- Cafodd brosiect Caban y Nadolig Abertawe Mwy Diogel y Tîm Integreiddio Cymunedol ei ganmol yn fawr yn y categori Partneriaethau.
- Cafodd panel CMET (Coll, Camfanteisio a Masnachu Cyd-destunol) mewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gymeradwyaeth uchel yn y categori Diogelu.
- Y Tîm Cydlynu Ardaloedd Lleol mewn Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaeth Atal a Threchu Tlodi oedd yr enillwyr cyffredinol yn y categori Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Chydlyniant.

Rhoddodd longyfarchiadau i'r Tîm Cydlynu Ardaloedd Lleol ar ennill y wobr hon a diolchodd iddynt am eu gwaith yn ein cymunedau. Dylent fod yn falch o'r effaith y maent yn ei chael ar wella bywydau unigolion a chysylltu ein cymunedau ar draws y ddinas.

**d) Gyda'n gilydd dros y Nadolig**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Cyngor Abertawe, mewn partneriaeth â JR Events & Catering, wedi cynnal menter Gyda'n gilydd dros y Nadolig ar 5 Rhagfyr 2023. Roedd y digwyddiad yn darparu cinio Nadolig am ddim i'r rheini sy'n ddigartref, yn unig neu mewn angen. Diolchodd i bawb a wnaeth helpu.

Dywedodd fod llawer o Gynghorwyr a Swyddogion yn gwisgo dillad Nadolig i gyfarfod y cyngor heno. Bydd yr arian a godir yn cael ei roi i gefnogi elusennau yn Abertawe.

## 72. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**a) Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Heneiddio gyda Llywodraeth Cymru**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorydd Hayley Gwilliam, Aelod y Cabinet dros y Gymuned wedi cael ei dewis i gymryd rhan yn Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Heneiddio gyda Llywodraeth Cymru. Bydd hi'n cymryd rhan fel Arweinydd Heneiddio'n Dda. Bydd y rhestr o Gyrff Allanol yn cael ei newid yn unol â hynny.

**b) Cartrefi i Wcráin**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt wedi ysgrifennu ato yn diolch i Swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u gwaith caled gyda'r rhaglen Cartrefi i Wcráin. Dywedodd y Gweinidog fod y cyngor yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau y gallai Cymru gyflawni ei huchelgais o fod yn Genedl Noddfa. Roedd gwesteion o Wcráin a noddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu lletya mewn tri lleoliad llety cychwynnol ar draws Abertawe, sef y Mercure, Gwesty'r Village a Gwesty'r Grand. Roedd y lleoliadau hyn yn darparu llety mawr ei angen i deuluoedd y mae angen amgylchedd diogel a gofalgar arnynt yn ystod cyfnod o ansicrwydd sylweddol yn dilyn dechrau'r rhyfel yn Wcráin.

**c) Gorymdaith y Nadolig**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Dîm Digwyddiadau Arbennig y Cyngor am gynnal Gorymdaith Nadolig ardderchog.

## 73. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 74. Datganiad Cyllideb Canol Blwyddyn 2023/24.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 ddiweddariad llafar ar Ddatganiad Cyllideb Canol Tymor 2023-2024.

## 75. Adolygu'r refeniw wrth gefn.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu adolygiad canol blwyddyn o sefyllfa'r Refeniw Wrth Gefn ac yn ceisio cytundeb ar unrhyw ailddosbarthiad o gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar ofynion presennol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi bod Cronfa wrth gefn Cyfartalu Cyfalaf wedi cael ei chreu o'r tanwariant ar daliadau dyled a'r adolygiad sylfaenol gan y cyngor o'r cyfrifiad o'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Dylid ychwanegu at y gronfa wrth gefn hon lle

bynnag y bo modd, trwy danwariant ariannu cyfalaf mewn blwyddyn, i helpu gydag unrhyw faterion amseru sy'n ymwneud â'r angen i ariannu unrhyw brosiectau'r Fargen Ddinesig cyn derbyn cyllid gan gyrff eraill.

2) I'r graddau hyn, ac yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar hyn o bryd, cymeradwyo ailddosbarthu cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi fel y manylir isod ar yr adeg hon:

| **Categori Cronfa wrth Gefn a Glustnodwyd** | **Balans Cyfredol 31/03/23 £'000** | **Newid Arfaethedig £'000** | **Sefyllfa a Argymhellir £'000** |
|---|---:|---:|---:|
| Technegol/trydydd parti | 2,815 | 0 | 2,815 |
| Yswiriant | 20,427 | 0 | 20,427 |
| Trawsnewidiad ac effeithiolrwydd | 15 | 2,800 | 2,815 |
| Cronfeydd wrth gefn dirprwyedig ysgolion | 20,155 | 0 | 20,155 |
| Cronfeydd wrth gefn cyfartalu | 23,386 | 0 | 23,386 |
| Symiau cymudedig | 8,025 | 0 | 8,025 |
| Cronfeydd atgyweirio ac adnewyddu | 2,311 | 0 | 2,311 |
| Cyfran elw ar fentrau ar y cyd | 1,694 | 0 | 1,694 |
| Cronfeydd wrth gefn y gwasanaeth a glustnodwyd | 36,431 | 0 | 36,431 |
| Cronfa wrth gefn costau ailstrwythuro | 2,800 | -2,800 | 0 |
| Wrth gefn | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Datblygu TG | 2,250 | 0 | 2,250 |
| Cronfa Adferiad | 31,008 | 0 | 31,008 |
| | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd** | **151,317** | **0** | **151,317** |

## 76. Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor - 2024/2025.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrifo sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ei Gynghorau Cymuned/Tref ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe ar gyfer 2024/2025. Mae'n ofynnol i'r cyngor bennu Sylfeini Treth y Cyngor erbyn 31 Rhagfyr.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Sylfeini Treth y Cyngor ar gyfer 2024/2025.

2) Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, dyma fydd cyfrifiad Dinas a Sir Abertawe ar gyfer y flwyddyn 2024/2025:

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer yr ardal gyfan** | 93,803 |
| **Ar gyfer ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref:** | |
| Llandeilo Ferwallt | 2,014 |
| Clydach | 2,655 |
| Gorseinon | 3,322 |
| Tregŵyr | 2,015 |
| Pengelli a Waungron | 451 |
| Llanilltud Gŵyr | 347 |
| Cilâ | 2,173 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 519 |
| Llangyfelach | 969 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,599 |
| Llanrhidian Isaf | 343 |
| Llwchwr | 3,497 |
| Mawr | 762 |
| Mwmbwls | 10,072 |
| Penlle'r-gaer | 1,538 |
| Pennard | 1,544 |
| Pen-rhys | 484 |
| Pontarddulais | 2,365 |
| Pont-lliw a Thir-coed | 1,037 |
| Porth Einon | 470 |
| Reynoldston | 312 |
| Rhosili | 196 |
| Y Crwys | 709 |
| Cilâ Uchaf | 593 |
| **Ar gyfer ardal Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe** | 66,063 |

## 77. Adolygiad o Lawlyfr y Cynghorwyr

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn amlinellu adolygiad o Lawlyfr y Cynghorwyr a cheisiodd gymeradwyaeth i gynnwys arweiniad ar Ddefnydd o Logo'r Cyngor yn Adran C, "Protocolau".

Trafododd Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad yn ystod ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2023 ac argymhellodd Llawlyfr y Cynghorwyr diwygiedig a fyddai'n cynnwys Arweiniad ar Ddefnydd o Logo'r Cyngor i'r cyngor i'w fabwysiadu.

**Penderfynwyd** mabwysiadu Llawlyfr y Cynghorwyr diwygiedig a fyddai'n cynnwys yr Arweiniad ar Ddefnydd o Logo'r Cyngor.

## 78. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

1) **‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A’**
Cyflwynwyd deg (10) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 2**
Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald:
i) Oes modd i mi gael ateb 'ie' neu 'na' i'm cwestiwn ysgrifenedig?
ii) Ble mae'r lleoliadau a nodwyd ar gyfer plannu coed yn dilyn yr Arolwg Canopi Coed?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Gymuned y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) Rhan B ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**
Cyflwynwyd chwe (6) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.15 pm

**Cadeirydd**